FFLACHTÂN
FIREFLASH

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dathlu'n Ddiogel

Efallai wir mai diogelwch tân yw'r peth diwethaf ar eich meddwl pan fyddwch wrthi'n dathlu. Ond meddyliwch - llawer o westeion, mwy o addurniadau, pobl yn ysmygu, yfed alcohol - mae'r peryglon bob dydd yn cynyddu.

Peidiwch â gadael i ddiogelwch tân roi stop ar yr hwyl - cofiwch am y risgiau, a chynlluniwch o flaen llaw

75% **wedi'i ailgylchu**

Ar ôl gorffen â'r papur yma, cofiwch ei ailgylchu

G/500/07-08
CMK-22-10-065(005)
© Hawlfraint y Goron 2007

Goleuadau Addurnol

Mae goleuadau addurnol yn cael eu defnyddio'n llawer llai aml na goleuadau bob dydd, ac felly rhaid bod yn fwy gofalus.

- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr bob amser.
- Prynwch y goleuadau gan werthwr cyfrifol, a gofalwch eu bod yn cydymffurfio â'r safonau.
- Gofalwch ddefnyddio'r math cywir o ffiwsys.
- Os bydd y bylbiau'n chwythu, rhowch rai newydd yn eu lle.
- Peidiwch â gadael goleuadau addurnol ymlaen pan fyddwch yn mynd allan neu'n mynd i gysgu.
- Peidiwch â gadael i'r bylbiau gyffwrdd rhywbeth a allai losgi'n hawdd, e.e. papur.
- Peidiwch â gorlwytho socedi a cheblau estynnol.
- Defnyddiwch geblau i'w defnyddio y tu allan gyda goleuadau y tu allan.

Canhwyllau

Er mai bychan yw'r fflam, bydd pum tân ar gyfartaledd yn cael eu cynnau bob diwrnod ym Mhrydain oherwydd canhwyllau. Dim ond ichi beidio â thalu sylw am eiliad, ac fe allai tân gychwyn ac arwain at ganlyniadau trychinebus.

- Cadwch nhw draw oddi wrth ddrafft ac unrhyw beth a allai fynd ar dân yn hawdd, e.e. dodrefn neu lenni.
- Peidiwch â gadael i ganhwyllau droi drosodd! Mae angen gosod canhwyllau mewn rhywbeth addas.
- Gosodwch ganhwyllau ar arwyneb sy'n gwrthsefyll gwres. Gall canhwyllau bychain achosi i arwyneb fel y plastig ar y teledu a'r bath doddi.
- Peidiwch â phwyso dros y canhwyllau! Fe allai eich dillad neu eich gwallt fynd ar dân.
- Gadewch o leiaf 10cm (4") rhwng dwy gannwyll sy'n llosgi.
- Peidiwch â gadael i ddim byd ddisgyn i'r cwyr poeth.
- Defnyddiwch lwy neu rywbeth addas i ddiffodd cannwyll. Mae hynny'n fwy diogel na'u chwythu oherwydd fe allai gwreichion a chwyr poeth fynd i bobman.

Os byddwch yn mynd allan, diffoddwch nhw!

Addurniadau a Phapur Lapio

Mae addurniadau sydd wedi eu gwneud o bapur sidan, plastig neu gardfwrdd yn llosgi'n hawdd.

- Peidiwch â rhoi addurniadau ar oleuadau neu wresogyddion.
- Peidiwch â rhoi addurniadau a phapur lapio uwchben neu o amgylch y lle tân.
- Cadwch nhw draw oddi wrth ganhwyllau.
- Gwaredwch y papur lapio cyn gynted ag y gallwch.
- Byddwch yn ofalus gyda rhubanau a chlecwyr parti wrth ymyl fflamau noeth.

Tân Gwyllt

Dilynwch y cyfarwyddiadau syml yma:

- Ewch i noson sydd wedi ei threfnu'n swyddogol.
- Os ydych yn penderfynu defnyddio tân gwyllt, prynwch nhw gan werthwr cyfrifol.
- Gofalwch fod y Safon Brydeinig 7114 ar y tân gwyllt, a darllenwch y cyfarwyddiadau bob amser.
- Darllenwch y cyfarwyddiadau gyda fflachlamp nid fflam.
- Cadwch y tân gwyllt mewn bocs metel, a'u tynnu allan un ar y tro.
- Peidiwch â mynd yn ôl at y tân gwyllt pan fydd wedi ei danio.
- Cadwch fwcedaid o ddŵr gerllaw.
- Ble bynnag y byddwch chi, dylech warchod plant rhag tân gwyllt!

Peidiwch byth â chwarae gyda thân gwyllt!

Gwyliau Crefyddol a Diwylliannol

O ba bynnag gefndir yr ydych yn dod, gall gwyliau diwylliannol a chrefyddol fod yn rhan bwysig iawn o'ch bywyd chi a bywyd y gymuned yr ydych yn rhan ohoni.

Heb fod eisiau difetha eich hwyl, mae hefyd yn gallu bod yn adeg pryd y mae sylw'r gymuned ar bethau eraill ac yn llai ymwybodol o beryglon, megis tân.

Wrth ddathlu, dyma bethau i'w cofio:

- Gofalwch fod gennych chi larymau mwg gartref, a'u profi bob wythnos.
- Gwnewch gynllun. Dihangwch yn fyw - cynlluniwch sut buasech chi'n dianc petai yna dân, a gofalwch fod eich gwesteion yn gwybod ble mae allweddi'r drysau a'r ffenestri'n cael eu cadw.
- Peidiwch â gadael i ddim fynd â'ch sylw pan fyddwch yn coginio, bydd tân yn cychwyn pan na fyddwch yn talu sylw.
- Peidiwch â gadael canhwyllau heb neb yn cadw golwg arnynt.
- Rhowch ganhwyllau mewn rhywbeth addas fel na allant droi drosodd.
- Cadwch addurniadau, cardiau a phapur lapio draw oddi wrth ganhwyllau, tanau agored a gwresogyddion.
- Rhowch ddigon o flychau llwch i bobl allu diffodd eu sigaréts.
- Byddwch yn ofalus gyda gwallt hir a dillad, maent yn fflamadwy iawn.
- Byddwch yn fwy gofalus na'r arfer o blant.

Yn 2005 bu 61 o anafiadau oherwydd tân gwyllt yng Nghymru. Roedd un rhan o dair o'r anafiadau wedi digwydd i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 mlwydd oed.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn annog pobl i fod yn ymwybodol o beryglon a chanlyniadau tân gwyllt ar achlysuron arbennig a chrefyddol, ac ewch i nosweithiau sydd wedi eu trefnu'n swyddogol er mwyn osgoi'r peryglon wrth storio a chynnau tân gwyllt.

Os bydd tân -
ewch allan,
arhoswch allan
a ffoniwch

999

I gael archwiliad diogelwch tân am ddim yn eich cartref gan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol

ffoniwch 0800 169 1234